LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

# Fframwaith Rheoli Casgliadau

## 1. Cyflwyniad

Rheoli casgliadau yw'r broses weithredol a pharhaus y mae'r Llyfrgell yn ei defnyddio er mwyn datblygu, rheoli a gofalu am ei chasgliadau. Trwy ddisgrifio pwrpas ac egwyddorion sylfaenol y Llyfrgell, mae'r polisi hwn yn nodi'r cyd-destun strategol ar gyfer rheoli casgliadau. Mae'r polisi hefyd yn amlinellu sut y defnyddir y Fframwaith Rheoli Casgliadau er mwyn rheoli casgliadau. Mae'r fframwaith hwn yn manylu ar sut mae'r Llyfrgell yn sicrhau bod ei chasgliadau'n cael eu datblygu a'u rheoli a'u bod ar gael i'w defnyddio heddiw ac yn y dyfodol.

## 2. Diben

Y casgliadau yw canolbwynt holl waith Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Sefydlwyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru drwy Siarter Frenhinol yn 1907 ac mae'r Siarter yn datgan mai prif bwrpas Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw:

*"I gasglu, diogelu a rhoi mynediad at bob math a ffurf ar wybodaeth gofnodedig, yn enwedig mewn perthynas â Chymru a Chenedl y Cymry a phobloedd Celtaidd eraill, er budd y cyhoedd, gan gynnwys y rhai sy'n ymroi i ymchwil a dysg."*

1.2 Mae'r casgliadau'n bodoli er budd pobl Cymru a'r byd ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae cynllun strategol y Llyfrgell ar gyfer *2021-2026 – Llyfrgell i Gymru a'r Byd* yn atgyfnerthu'r egwyddor hon trwy nodi gweledigaeth y Llyfrgell, sef:

*"I wneud gwahaniaeth er gwell i bawb yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol, ac i fod yn llyfrgell genedlaethol agored, blaengar ac arloesol."*

1.3 Mae'r Cynllun Strategol hefyd yn cynnwys pedwar amcan strategol a llesiant:

- Meithrin a gofalu am gof y genedl
- Gosod sylfaen i economi gwybodaeth
- Bod yn ganolog i fywyd Cymru
- Grymuso ymchwil a dysgu

Mae rheoli'r casgliadau'n effeithiol yn cyfrannu'n uniongyrchol at allu'r Llyfrgell i gyflawni ei hamcanion strategol a llesiant.

## 3. **Egwyddorion Sylfaenol**

Datblygu cynaliadwy yw egwyddor ganolog Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'n cael ei ddiffinio fel "*gweithredu mewn ffordd sy'n ceisio bodloni anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain*."

Mae sawl ystyriaeth wahanol yn gysylltiedig â chydymffurfio â'r egwyddor hon a'r gwaith o reoli'r casgliadau:

| Ffordd o weithio | Sut mae'n alinio â rheoli casgliadau |
|---|---|
| Hirdymor | Mae cadwraeth ffisegol a digidol y casgliadau yn gofyn am roi ystyriaeth i'r cydbwysedd rhwng cadwraeth hirdymor y casgliadau a'u budd yn y presennol |
| Atal | Mae gwaith cadwraeth (ffisegol a digidol) a gwaith disgrifio yn hanfodol er mwyn sicrhau na cheir problemau mynediad yn y dyfodol |
| Cydweithio ac Integreiddio | Mae'r Llyfrgell wedi ymrwymo i gydweithio'n agos â phartneriaid yn y sector treftadaeth, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys mabwysiadu safonau ac arferion gorau sy'n berthnasol i'r gwaith o reoli casgliadau yn effeithiol. |
| Cynnwys | Rydym yn ymrwymo i fod yn gyfrifol am y ffyrdd rydym yn gweithio er mwyn sicrhau bod gan randdeiliaid lais o ran sut rydym yn blaenoriaethu gwaith mewn perthynas â'r casgliadau. |

## 4. Perthnasedd y polisi

Mae'r polisi yn berthnasol i'w gasgliadau amrywiol, sy'n cynnwys, ymhlith pethau eraill:

- Deunydd printiedig (llyfrau, cylchgronau, papurau newydd)
- E-adnoddau
- Gwefannau
- Llawysgrifau
- Deunydd archifol (papur a digidol)
- Darluniau a Phrintiau Topograffig
- Portreadau
- Ffotograffau
- Mapiau a siartiau

- Ffilm
- Fideo
- Recordiadau sain
- Eitemau 3D

Darllenwch y Polisi Datblygu Casgliadau am fwy o wybodaeth am hanes a natur y casgliad.

## 5. **Amcanion Rheoli Casgliadau**

Amcanion y gweithgareddau rheoli casgliadau yw

- Cynllunio ar gyfer datblygu casgliadau mewn modd cynaliadwy
- Cynllunio ar gyfer gofalu am gasgliadau mewn modd cynaliadwy
- Hwyluso dealltwriaeth o'r casgliadau a rheoli'r mynediad atynt a'r defnydd ohonynt
- Sicrhau atebolrwydd drwy gydymffurfio â safonau
- Cefnogi cydymffurfiaeth â meincnodau allanol yn ogystal â gofynion y cynlluniau Achredu Archifau ac Achredu Amgueddfeydd

## 6. **Fframwaith Rheoli Casgliadau**

Mae'r polisi rheoli casgliadau yn cael ei gyflwyno trwy weithredu'r fframwaith rheoli casgliadau, ar y cyd â pholisïau a gweithdrefnau eraill. Dyma'r pedwar prif faes polisi sy'n rhan o'r fframwaith:

| Maes Polisi | Bwriad |
|---|---|
| Datblygu Casgliadau | Disgrifio egwyddorion a chanllawiau casglu Llyfrgell Genedlaethol Cymru (h.y. yr hyn y mae'r Llyfrgell yn ei dderbyn ar gyfer ei chasgliadau ac ym mha fformatau) |
| Gwybodaeth am Gasgliadau | Disgrifio'r egwyddorion ar gyfer cofnodi gwybodaeth am y casgliadau sydd yng ngofal y Llyfrgell |
| Mynediad at Gasgliadau | Disgrifio'r egwyddorion ar gyfer cael mynediad at gasgliadau sy'n ymwneud â safle'r Llyfrgell, ar-lein ac ar lwyfannau trydydd parti |
| Cadwraeth a Gofalu am Gasgliadau | Cofnodi'r egwyddorion o ran gofalu am gasgliadau ac o ran sicrhau cadwraeth y casgliadau sydd yng ngofal y Llyfrgell |

Mae llawer o bolisïau eraill yn bodoli hefyd, sydd yn berthnasol ac sy'n gorgyffwrdd â mwy nag un o'r pedwar maes polisi a restrir yn y tabl uchod.

## 7. Awdurdod

Rhaid i bawb sydd â'r awdurdod i gaffael, i reoli, ac i ddefnyddio casgliadau a gwybodaeth am gasgliadau ddilyn y fframwaith. Mae'r rhai sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb am reoli casgliadau LlGC yn cynnwys yr Ymddiriedolwyr, y Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Adrannau, staff casgliadau a staff nad ydynt yn ymwneud â'r casgliadau. Mae'r polisi'n berthnasol i'r holl gasgliadau a dderbyniwyd yn barhaol, i'r wybodaeth am gasgliadau, i asedau digidol ac i eitemau sydd ar fenthyg ac eitemau adnau.

## 8. Ystyriaethau moesegol

Disgwylir i staff y llyfrgell fod yn ymwybodol o'r canllawiau moesegol a'r safonau proffesiynol sy'n berthnasol i'w meysydd, a chadw atynt, ac i sicrhau eu bod yn gweithredu er budd gorau'r cyhoedd o ran stiwardiaeth a rheoli mynediad at y casgliadau.

## 9. **Deddfwriaeth a Chanllawiau**

Mae'r Llyfrgell yn rhoi sylw dyladwy i gyfreithiau ac i reoliadau cenedlaethol a rhyngwladol wrth weithredu'r polisi hwn, ac mae rhai ohonynt wedi'u rhestru isod:

- Rheoliad Rheoli Asbestos 2012
- Rheoliad Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002
- Deddf Hawlfraint 1911, 1956
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd
- Rheoliad Amgylcheddol 2004
- Deddf Cydraddoldeb 2006
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018
- Deddf Llywodraeth Cymru 1998
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol 2003
- Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 a'i diwygiadau diweddarach.
- Gorchymyn Hawlfraint (Cofnodi Darllediadau a Rhaglenni Cebl o Ddosbarth Penodol ar gyfer Archifau) (Cyrff Penodedig) 1991

**Canllawiau anneddfwriaethol**

- ICOM: Cod Moeseg Broffesiynol
- Cynllun Achredu Amgueddfeydd yn y Deyrnas Unedig: Safon Achredu, Cyngor Celfyddydau Lloegr, 2014
- Safon Achredu Archifau
- Safonau Catalogio, gan gynnwys MARC, AACR2, ISAD (G), RDA (AACR2), LCSH, NACO

- Cod Moeseg y Gymdeithas Archifau a Chofnodion
- BS5454 Argymhellion ar gyfer storio ac arddangos dogfennau archifol
- PAS 197: Cod ymarfer ar gyfer rheoli casgliadau diwylliannol
- PAS 198: 2012 Manyleb ar gyfer rheoli amodau amgylcheddol ar gyfer casgliadau diwylliannol
- Adroddiad Cyfleusterau Safonol, Grŵp Cofrestryddion y DU
- Model Cyfeirio OAIS (ISO 14721)

## 10. Adolygu

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y Gyfarwyddiaeth Casgliadau a Gwasanaethau Digidol er mwyn ystyried unrhyw ddatblygiadau o fewn y meysydd polisi sy'n rhan o'r fframwaith. Bydd unrhyw newidiadau i'r prif bolisïau angen cymeradwyaeth y Tîm Gweithredol.